



Ein Cyf: qA1433467 / qA1433466 & qA1417207
Eich Cyf:

Dyddiad: 10 Chwefror 2021

Annwyl Syr/Madam

GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD – Y FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A FFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON – MAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060), CEFNFFORDD CAERDYDD – GLANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) 1999 (DOWLAIS TOP I HIRWAUN) (DIWYGIO) GORCHYMYN 202-

GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD – Y FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A FFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON – MAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060), CEFNFFORDD CAERDYDD – GLANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (DOWLAIS TOP I HIRWAUN) (FFYRDD YMYL) 2019 (AMRYWIO) (RHIF 2) GORCHYMYN 202-

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A FFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON – MAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060), A CHEFNFFORDD CAERDYDD – GLANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (DOWLAIS TOP I HIRWAUN) (ATODOL) (RHIF 2)) 202-

TREFNIADAU DIRPRWYO

1. Mae'r swyddogaeth o benderfynu p'un a ddylid gwneud y Gorchymyn Diwygio (Linell), y Gorchymyn Amrywio Ffyrrd Ymyl (Rhif 2) a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif 2) a nodwyd uchod wedi ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 Atodlen 11 y Ddeddf Honno. Mae'r penderfyniad yn rhan o gyfrifoldeb Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, ("y Gweinidog"), un o Weinidogion Cymru.

CYFLWYNIAD

2. Gwnaed Gorchmynion Deuoli'r A465 Adran 5 a 6 Dowlais Top i Hirwaun gan Weinidogion Cymru ym mis Ebrill 2019, a gwnaed set gyntaf o orchmynion atodol ym mis Mehefin 2020 (gyda'i gilydd, y Gorchmynion a wnaed) i hwyluso adeiladu'r cynllun cyhoeddedig.
3. O ganlyniad i ddatblygu'r dyluniad ymhellach i gynnwys newidiadau dylunio peirianeg gwerth ers i'r broses statudol wreiddiol gael ei chwblhau, mae rhai addasiadau i'r cynllun cyhoeddedig wedi'u datblygu sydd yn golygu bod yn rhaid gwneud rhai mân newidiadau pellach i'r Gorchmynion a wnaed.
4. Yn unol â hynny, ar 23 Gorffennaf 2020 cyhoeddwyd Gorchmyn Diwygio (Llinell) drafft, Gorchmyn Prynu Gorfodol Atodol (Rhif 2) (CPO (Rhif 2)) a Gorchmyn Amrywio'r Ffyrdd Ymyl (Rhif 2) (VSRO (Rhif 2)) (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel "y Gorchmynion drafft") i gynnwys y newidiadau dylunio. Roedd y prif newidiadau fel a ganlyn:
 - Newid i ddwy gylchfan fach gysylltiedig a gwaith adlinio cysylltiedig i'r ffyrdd ymuno ac ymadael wrth Gyffordd Hirwaun;
 - Newid bach i aliniad Ffordd Abertawe ac i'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd Baverstock;
 - Adlinio'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd yr A470;
 - Adleoli Pont Droed Pentwyn Cynon i'r dwyrain;
 - Cael gwared ar Bont Droed dros Reilffordd Cwm Nedd gan ledw croesfan yr A465;
 - Adleoli Tanffordd Nant Moel i'r gorllewin gyda dargyfeiriad cysylltiedig i'r ffordd ymyl;
 - Newid i gynlluniau rhychwant Traphontydd Nant Hir, Nant Melyn a Nant Ffrwd;
 - Adleoli Pont Droed Taith Taf i'r dwyrain;
 - Dargyfeirio'r droedffordd islaw Taf Fechan i groesi Pont Droed Taith Taf;
 - Cael gwared ar Bont Droed Taf Fechan gan ddarparu troedffordd ar Draphont Taf Fechan wedi'i lledu;
 - Adleoli Trosbont Heol Bryniau i'r gorllewin;
 - Amnewid wal gynnal gydag arglawdd i'r gogledd o Gronfa Ddŵr Dowlais;
 - Amnewid y seiffon wrth Gyffordd Trewaun gyda chwrs dŵr;
 - Adleoli pwll arafu yn Baverstock i'r gorllewin o Fferm Tŷ Gwyn.

Y GORCHMYNION

5. Byddai'r Gorchmyn Diwygio (Llinell), pe bai'n cael ei wneud, yn awdurdodi mân newidiadau i gefnffordd yr A465 a'r ffyrdd ymuno ac ymadael y darperir ar eu cyfer yn y Gorchmynion a wnaed.
6. Byddai'r VSRO (Rhif 2) pe bai'n cael ei wneud, yn amrywio'r Gorchmyn Ffyrdd Ymyl a wnaed gan Weinidogion Cymru ar 16 Ebrill 2019 (ac a amrywiwyd ar 26 Mehefin 2020) a byddai'n awdurdodi cau priffyrdd presennol, adeiladu priffyrdd newydd a

gwella priffyrdd presennol; cau mynedfeydd preifat a darparu mynedfeydd newydd a chynnwys addasiad y cytunwyd arno gyda'r buddiannau yr effeithiwyd arnynt.

7. Byddai'r Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2) pe bai'n cael ei wneud, yn awdurdodi caffael tir ychwanegol a hawliau newydd dros y tir i wneud darpariaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r cynllun cyhoeddedig.
8. Mae'r Gorchmynion a wnaed yn aros a byddant yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a amlinellir yn y Gorchmynion drafft, os y'u gwneir.

LLEOLIADAU ADNEUO

9. Rhoddwyd copïau o'r Gorchmynion drafft ar gael i'w harchwilio o 23 Gorffennaf 2020 am y cyfnod gwrthwynebu chwe wythnos yn Swyddfa Cyswllt y Cyhoedd, Adeilad Clinig 3G, Chestnut Way, Merthyr Tudful, CF47 9SB.

GWRTHWYNEBIADAU A GOHEBIAETH ARALL

10. Daeth tri gwrthwynebiad i law mewn ymateb i'r Gorchmynion drafft. Derbyniwyd gwrthwynebiad dros dro gan ymgynghorai statudol (Cadent a'r Grid Cenedlaethol) mewn perthynas ag agoswydd y cynllun at eu cyfarpar. Tynnwyd y gwrthwynebiad hwn yn ôl wedyn ym mis Awst 2020.
11. Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r VSRO (Rhif 2) gan wrthwynebwyr statudol mewn perthynas â'u trefniant mynedfeydd preifat diwygiedig yn Tower Road. Tynnwyd y gwrthwynebiad hwn yn ôl yn dilyn trafodaethau gyda'r gwrthwynebwyr statudol pan gytunwyd y byddai'r cynllun yn mynd yn ôl at y trefniant yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill 2019 ac felly mae addasiad (a gynhwyswyd yn yr Atodiad i'r Llythyr Penderfyniad hwn) mewn perthynas â'r trefniant mynedfeydd preifat hwn, ynghyd â'i lwybr troed cydfodol, yn cael ei gynnig.
12. Roedd y trydydd gwrthwynebiad a'r unig un a oedd yn weddill yn un anstatudol a chan ohebwy'r a oedd yn cwestiynu effaith y cynllun diwygiedig ar eu heiddo, ac effaith sŵn ac ansawdd yr aer yn ystod gwaith adeiladu'r cynllun newydd arfaethedig wrth Gyffordd Hirwaun. Cynhaliodd swyddogion drafodaethau gyda'r gwrthwynebwyr ar 27 Awst 2020 ac anfonont ymateb manwl ar 15 Medi 2020 yn egluro y byddai'r sŵn adeiladu, dirgryniad ac ansawdd yr aer yn gwella o dan y cynllun arfaethedig am fod pont yn cael ei thynnu ac y byddai llai o weithgarwch stancio o ganlyniad i hynny yng nghyffiniau eu heiddo.

ADDASIADAU I'R GORCHMYNION DRAFFT

13. Mae addasiadau i'r Gorchymyn Diwygio (Llinell) ac i'r VSRO (Rhif 2) wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r Llythyr Penderfyniad hwn. Yr addasiad i'r Gorchymyn Diwygio (Llinell) yw cywiro mân wall teipograffyddol yn y Gorchmynion a wnaed. Mae'r addasiad i'r VSRO (Rhif 2) yn ofynnol, yn dilyn trafodaethau gyda buddiolwyr mynedfeydd preifat a pherchnogion tir, ac mae wedi'i gytuno gyda'r holl bersonau a buddiant ac yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan yr addasiad.

YSTYRIAETHAU'R GWEINIDOG

14. Mae'r Gweinidog yn nodi y derbyniwyd gwrthwynebiad dros dro mewn perthynas ag agosrwydd y cynllun at eu cyfarpar ym mis Awst 2020 gan Cadent a'r Grid Cenedlaethol, a'i fod wedi'i dynnu'n ôl wedyn ar 22 Awst 2020. Derbyniwyd gwrthwynebiad pellach gan fuddiolwr mynedfa breifat; fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn nodi bod y cynnig o ran mynedfa breifat, ynghyd â'i lwybr troed cydfodol wedi newid, yn dilyn cytundeb rhwng y partïon, fel bod yr aliniad gwreiddiol yn y Gorchmynion a wnaed i'w fabwysiadau; mae'r Gweinidog yn nodi bod hyn yn mynnu gwneud addasiad i'r VSRO (Rhif 2), y mae'r Gweinidog yn cytuno iddo.
15. Mae'r Gweinidog yn nodi hefyd fod yr un gwrthwynebiad anstatudol sy'n weddill wedi'i ystyried yn ofalus gan Swyddogion ac anfonwyd ymateb at y gohebwy. Mae'r gohebwy wedi gwrthwynebu effaith tarfu ar eu heiddo yn ystod yr adeiladu mewn perthynas â'r cynllun diwygiedig. Mae'r Gweinidog yn nodi bod Swyddogion wedi ymateb gan ddweud y byddai'r cynllun newydd arfaethedig wrth Gyffordd Hirwaun, a fyddai'n disodli'r dyluniad system gylchu gyda dwy gylchfan a chyswllt yr A4059, yn galluogi cael gwared ar bont gan arwain at ostyngiad o ran tarfu yn ystod yr adeiladu yng nghyffiniau eu heiddo. Mae'r Gweinidog yn nodi bod ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i'r mesurau lliniaru sydd i'w rhoi ar waith i leihau effeithiau'r dyluniad arfaethedig yng nghyffiniau eu heiddo. Mae'r Gweinidog yn fodlon fod yr holl faterion a godwyd gan y gwrthwynebwyr wedi'u hystyried yn ofalus, ac mae wedi dod i'r casgliad y dylai'r cynllun arfaethedig gael ei gynnwys yn y Gorchmynion drafft.
16. Wrth ystyried p'un ai i arfer ei ddisgresiwn i wneud y Gorchmynion drafft, mae'r Gweinidog yn fodlon fod ganddo ddigon o wybodaeth ger ei fron i roi ystyriaeth lawn i'r materion.
17. Mae'r Gweinidog yn nodi na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2) ac mae wedi ystyried yn ofalus p'un a yw'r dibenion y paratowyd y Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2) ar eu cyfer yn cyfiawnhau'n ddigonol ymyrryd â hawliau dynol y rheiny â buddiant yn y tir yr effeithir arno, ac y bydd y cynllun diwygiedig yn effeithio arnynt fel arall. Mae'r Gweinidog yn fodlon fod cyfiawnhad dros y cyfryw ymyriad gan fod y Gweinidog o'r farn fod angen diwrthdro er budd y cyhoedd am i'r tir, sy'n destun y Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2), gael ei gaffael yn orfodol. Mae'r Gweinidog yn fodlon na ellid cyflawni dibenion y Gorchmynion drafft trwy fodd arall. Yn benodol, mae'r Gweinidog wedi ystyried darpariaethau Erthygl 8 ac Erthygl 1 y Protocol Cyntaf i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn hyn o beth, mae'r Gweinidog yn fodlon, wrth wneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2), bod cydbwysedd teg wedi'i daro rhwng defnyddio pwerau prynu gorfodol ac ymyrryd â'r hawliau hynny.
18. Mae'r Gweinidog o'r farn fod yr addasiadau a restrwyd yn yr Atodiad i'r Llythyr Penderfyniad hwn, a gynigiwyd ers i'r Gorchmynion drafft gael eu cyhoeddi, yn dderbyniol am eu bod wedi'u cytuno gyda'r holl bersonau â buddiant.
19. Mae'r Gweinidog wedi penderfynu y gellir gwneud y Gorchymyn Diwygio (Llinell) a'r VSRO (Rhif 2) gan ymgorffori'r addasiadau a nodwyd uchod ac a restrwyd yn yr Atodiad, a gwneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2) fel y'i cyhoeddwyd. Bydd y Gorchmynion yn dod i rym ar y dyddiad y cyhoeddir am y tro cyntaf yr hysbysiadau eu bod wedi eu gwneud.

CYFLEU'R PENDERFYNIAD

20. Mae'r llythyr hwn wedi ei anfon at bawb a fynegodd farn ar y Gorchmynion drafft, a'r buddiannau yn y mynedfeydd preifat a'r llwybr troed cydfodol sydd i'w haddasu. Bydd copïau o'r llythyr hwn, ynghyd â'r Gorchymyn Diwygio (Llinell), VSRO (Rhif 2) a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2), a'r cynlluniau cysylltiedig a'r Hysbysiadau Cyhoeddus ar gyfer bob un ar gael i'w harchwilio yng Nghanolfan Orbit, d/o Cymoedd y Dyfodol, Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful, CF47 1DL trwy gydol y cyfnod herio 6 wythnos. Dim ond drwy apwyntiad y ceir eu gweld. I bawb nad ydynt yn gallu mynychu'r lleoliadau adneuo yn bersonol, bydd Cymoedd y Dyfodol yn dosbarthu'r dogfennau adnau dros dro i leoliad cyfleus i'w harchwilio a'u casglu. Hefyd, bydd y dogfennau'n cael eu lanlwytho i dudalen we Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/a465-rhan-5-6-dowlais-top-i-hirwaun#GorchmynionAtodolDrafft>
21. Dylid gwneud trefniadau i archwilio'r dogfennau adnau drwy'r Swyddog Cyswllt y Cyhoedd, gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt ganlynol: ffôn symudol 07762 451850, ac e-bost A465enquiries@futurevalleysconstruction.com.

YR HAWL I HERIO

22. Os yw unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn Diwygio (Llinell) neu'r VSRO (Rhif 2) uchod yn dymuno herio'u dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaethau sydd ynddynt, ar y sail:

- nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980; neu
- na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf neu o reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos wedi iddynt ddod yn weithredol, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

23. Os yw unrhyw berson, a dramgwyddir gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol (Rhif 2) uchod, yn dymuno herio dilysrwydd y gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaethau sydd ynddo, ar y sail:

- nad yw'r awdurdodiad, a roddwyd drwy hynny ar gyfer pryniant gorfodol, yn awdurdodiad y mae pŵer i'w roi o dan Ddeddf Caffael Tir 1981, nac unrhyw ddeddfiad o'r fath a grybwyllir yn adran 1(1) o'r Ddeddf; neu
- na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos wedi i'r Gorchymyn ddod yn weithredol, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Yr eiddoch yn gywir



Andy Falley
Dirprwy Gyfarwyddwr, Rhwydwaith Ffyrdd Strategol